Ffordd Cymru
Llwybr teithio cenedlaethol

Canllaw defnyddiol ar gyfer eich busnes twristiaeth

Ffordd Cymru
The Wales Way

A470, Nant-ddu, Bannau Brycheiniog

Ffordd Cymru yw un o'r cynlluniau mwyaf uchelgeisiol yn ein cynllun gweithredu twristiaeth: teulu o dair ffordd, yn unigryw ond yn cyd-fynd â'i gilydd, sy'n rhoi ffordd i bobl gyrraedd y gorau sydd gan ein cenedl i'w gynnig. Ar y cyd, maen nhw'n gwneud datganiad grymus am yr hyn rydym ni'n ei drysori am Gymru a sut yr hoffem gyflwyno ein hunain i'r byd.

Beth a pham?
04 Her, gweledigaeth, noddau
05 Dyma Ffordd Cymru
07 Rhwydwaith aml-ddull
08 Mynd igam ogam
09 Y dull thematig
10 Negeseuon marchnata allweddol
12 Partneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol

14 Cyfeillion Ffordd Cymru

Wedi hen arfer
16 Ysbrydoliaeth fyd-eang

22 Cyfeillion Ffordd Cymru

Dechrau arni
25 Meddwl yn null Ffordd Cymru
29 Edrych i'r dyfodol

30 Cyfeillion Ffordd Cymru

Eich marchnata
32 Ydych chi'n barod i fod yn rhyngwladol?
34 Adnabod eich marchnad
35 Cynnwys digidol
36 Gweithio gyda'r diwydiant
38 Gwella y darlun mawr
40 Buddsoddi yn eich cynnyrch
41 Rhagor o ffyrdd i gymryd rhan

Yr her:
Dros y 10 mlynedd ddiwethaf rydym ni wedi symud ymlaen yn enfawr gyda'n gilydd, ond mae rhagor i'w wneud. Mae'r ymwybyddiaeth o Gymru'n dal i fod yn isel ledled y byd. Hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig, ceir gwaddol o ragdybiaethau hen-ffasiwn, negyddol. Er mwyn cywiro hyn, mae Croeso Cymru wedi cyflwyno menter llwybr cenedlaethol hirdymor newydd — Ffordd Cymru.

Y weledigaeth:
Mae Ffordd Cymru'n symbol o hyder, nerth ac uchelgais sy'n cynnig ysbrydoliaeth. Mae'n cynrychioli'r gorau o Gymru — y profiad a gynigiwn i ymwelwyr, ein lletygarwch a'n hatyniadau. Yn syml, mae'n ymgorffori popeth sy'n gwneud Cymru'n unigryw ac yn eithriadol yn y byd.

Y nodau:
— Codi ymwybyddiaeth o Gymru yn y marchnadoedd rhyngwladol.
— Denu pobl i aros yn hirach, a gwario mwy, o blith ymwelwyr domestig a rhyngwladol.
— Darparu pwynt canolog o ran marchnata i bawb yng Nghymru sy'n ymwneud â thwristiaeth.

Dyma Ffordd Cymru.
Cyfres o dri llwybr thematig a osodwyd dros ffyrdd sy'n bodoli eisoes.

Mae Ffordd Cambria'n daith ar hyd asgwrn cefn mynyddig Cymru, gan redeg am 185 milltir (300km) rhwng Llandudno a Chaerdydd, drwy ddau Barc Cenedlaethol a Mynyddoedd Cambria. Mae Ffordd yr Arfordir yn teithio ar hyd y gorllewin o gwmpas Bae Ceredigion, taith ffordd 180 milltir (290km) rhwng y môr a'r mynyddoedd. Mae Ffordd y Gogledd yn arwain am 75 milltir (120km) heibio i gestyll enfawr ac ymlaen i Ynys Môn. Mae pob cam o'r daith yn cynnig lle i wyro oddi ar y brif ffordd i chwilio am anturiaethau dyfnach — gadael Ffordd Cymru, a mynd igam ogam.



Ffordd Cambria
The Cambrian Way
A470

Ffordd yr Arfordir
The Coastal Way
A487 yn bennaf

Ffordd y Gogledd
The North Wales Way
A55

Nant Gwynant, Eryri

Rhwydwaith aml-ddull.

Mae Ffordd Cymru'n llawer mwy na llwybr i yrru ar ei hyd yn unig. Rhaid i ni, gyda'n gilydd, hybu gwell cysylltiadau â dulliau amrywiol o deithio: trên, bws, beic, cerdded a marchogaeth.

Mae'r llwybrau'n chwarae rhan bwysig wrth dynnu sylw at ffyrdd mwy cynaliadwy a hygyrch o deithio i mewn i Gymru ac o'i chwmpas. Mae'n fodd o ganolbwyntio buddsoddiad yn ein rhwydwaith deithio er mwyn gwasanaethu anghenion ymwelwyr y dyfodol. Mae hefyd yn annog ein cymunedau ni ein hunain i wneud yn fawr o'r hyn sydd ar garreg eu drws, a chysylltu â'u rhwydwaith drafnidiaeth leol, ei llwybrau a'i ffyrdd.

Mae ffurfio partneriaethau strategol â gweithredwyr trafnidiaeth yn flaenoriaeth allweddol i Croeso Cymru. Rydym ni'n parhau i ymwneud ag ystod eang o bartneriaid teithio — meysydd awyr a chwmnïau awyrennau, trefnwyr porthladdoedd, fferis a llongau pleser, a chwmnïau rheilffordd a bws sy'n gwasanaethu Cymru — er mwyn darparu llwyfannau effeithiol a dargedwyd ar gyfer hybu twristiaeth i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Dyw hi erioed wedi bod yn bwysicach i bontio Cymru'n gorfforol â'r byd. Bydd ein gallu i feithrin marchnadoedd newydd a chynnal a thyfu ein safle fel lle deniadol a chystadleuol i ymweld ag ef yn dibynnu ar gryfder ein perthynas â'r DU a thramor, a gwella ein cysylltedd o ran trafnidiaeth.

Cysylltu.

Mae Llwybr Arfordir Cymru, y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybrau Cenedlaethol, y Rhwydwaith Rheilffyrdd, Lein Calon Cymru, Trenau Bach Arbennig Cymru, TrawsCymru, bysiau'r Parciau Cenedlaethol, Rhwydwaith Teithio Eco, Tocyn Darganfod Cymru, camlesi a llawer mwy... oll yn ffurfio cysylltiadau di-gar â Ffordd Cymru.

Mynd igam ogam.

Yn hytrach na phasio'n gyflym drwy ein tirweddau a'n cymunedau, mae'r llwybrau'n annog y syniad o fynd igam ogam oddi arnynt.

Pwynt cychwyn i ddarganfod Cymru yw Ffordd Cymru. Mae'r llwybrau'n llawn dop o resymau i fod allan o'ch car, yn hytrach nag ynddo. Mae mynd yn igam ogam, neu oddi ar y prif lwybrau, yn cael ei annog, yn ogystal â stopio'n rheolaidd i fwynhau popeth sydd gan Gymru i'w chynnig ar hyd y ffordd, gan ddarganfod mannau cudd y wlad yma a thraw.

Mae'r llwybrau'n darparu'r camau cyntaf ar gyfer cynllunio: llwybr tarw er mwyn creu tripiau sy'n cyd-fynd â diddordebau ymwelwyr. Dylem roi amrywiaeth gyfoethog o deithiau diddordeb-arbennig i'n hymwelwyr, ar themâu fel bwyd, cerdded, beicio, anturio, bywyd gwyllt, diwylliant, treftadaeth a ffydd.

Y ðull thematig.

Yn unol â'n Blynyddoedd Antur, Chwedlau a'r Môr, ac ar y cyd â'n pileri cynnwys, sef Antur, Diwylliant a Thirweddau, rydym ni wedi rhoi thema gyffredinol i bob llwybr: Cefn Gwlad, Arfordir, a Cestyll a Diwylliant.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ymwelydd sydd heb lawer o ymwybyddiaeth na gwybodaeth am Gymru i ddeall siâp a maint ein tirweddau, ein profiadau ymwelwyr safon rhyngwladol, a'n hiaith, ein diwylliant a'n hanes.

Cefn Gwlað
Fforðð Cambria

Arforðir
Fforðð yr Arforðir

Cestyll a Diwylliant
Fforðð y Gogleðð

Negeseuon marchnata allweddol.
Dylid gwerthu Ffordd Cymru i'r byd drwy gyfrwng hunaniaeth gref a naratif cyson.

Dyma'r pwyntiau allweddol sy'n wahanol rhwng y tri llwybr. Dylai pob gwaith marchnata a chyfathrebu gefnogi'r negeseuon unigryw hyn a'u nodweddion diffiniol.

Ffordd Cymru
The Wales Way

Un daith epic, tri llwybr gwahanol

Ar y cyd, mae tri llwybr Ffordd Cymru'n cyflwyno 420 milltir o olygfeydd mwyaf eithriadol Cymru. Mae gan bob un ei gymeriad unigryw ei hun — 'cefn gwlad', 'arfordir' a 'cestyll a diwylliant'.

Byr, cryno a dwys

Mae Ffordd Cymru'n rhoi mynediad i gasgliad anhygoel o atyniadau mewn ardal fechan. Nid taith i'r anialwch mo hon, ond antur ar raddfa ddynol, y gellir ymdopi â hi.

Pwynt dechrau anturiaethau

Mae'r llwybrau'n gyforiog o gyfleoedd i ddilyn trywydd gwahanol, neu i fynd yn igam ogam — boed ar hyd llwybr beicio pell, ar Lwybr Arfordir Cymru, rheilffordd stêm neu hyd yn oed daith ar gwch i ynys oddi ar yr arfordir.

Nid dim ond i yrwyr

Nid taith i'w chymryd ar garlam mo hon. Ar bob tro, dylid annog ymwelwyr i adael y car. Mae pob un o'r tri llwybr yn hawdd i'w dilyn ar droed a thrwy gyfrwng trafnidiaeth gyhoeddus.

Ffordd Cambria
The Cambrian Way

Taith epic o arfordir i arfordir

Rhwng arfordiroedd gogledd a de Cymru, mae Ffordd Cambria'n mynd ag ymwelwyr ar hyd asgwrn cefn mynyddig y wlad. A hithau'n 185 milltir o hyd, dyma'r hiraf o'r llwybrau, a'r mwyaf amrywiol o ran golygfeydd.

Y maes chwarae antur gorau

Mae Eryri'n fyd-enwog am fynydda neu gerdded bryniau. Yn fwy diweddar, daeth yn faes chwarae anturio arloesol. Ceir rhagor o gyfleoedd i fod yn egnïol drwy gydol y daith: beicio mynydd ym Mannau Brycheiniog, barcudfyrddio yn Llandudno a chaiacio yng Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd.

Cip ar galon Cymru

Mae'r llwybr yn mynd â chi i galon 'gwyllt Walia': lle ag Awyr Dywyll a thiroedd agored enfawr. Yn ogystal ag Eryri a Bannau Brycheiniog, gall ymwelwyr ddarganfod harddwch eithriadol Mynyddoedd y Cambria ac Elenydd.

Darganfod pentrefi, trefi marchnad, cyrchfannau sba a dinasoedd

Yma a thraw, addurnir y mawredd gwyllt gan anheddau hanesyddol, pentrefi tawel a threfi marchnad prysur. Ar ddau ben y daith mae tref Fictoraidd Llandudno a dinas fodern Caerdydd.

Ffordd yr Arfordir
Coastal Way

Taith ffordd oddi ar y ffordd

Dyma lwybr sy'n cynnwys holl gilgant Bae Ceredigion. Mae'n cysgodi Llwybr Arfordir Cymru, yr unig lwybr troed hir yn y byd sy'n dilyn arfordir gwlad gyfan — gan roi hyd yn oed mwy o resymau i'r ymwelydd fod allan o'r car yn hytrach nag ynddo.

Ysblander y mynyddoedd

Nid yr arfordir garw mo'r cyfan. Mae'r golygfeydd mewndirol yr un mor syfrdanol, wrth i Eryri — gan gynnwys Cader Idris — a Mynyddoedd Cambria warchod y môr.

Cyfle i ddarganfod Cymru forol

Mae bywyd gwyllt morol yn denu llawer yma — nid dim ond dolffiniaid enwog Bae Ceredigion, ond morloi, palod a chyfoeth o fywyd adar. Mae cyfle hefyd i deithio i ynysoedd oddi ar yr arfordir, fel Enlli ac Ynys Dewi.

Cestyll, cadeirlannau a threftadaeth

Mae dechrau a diwedd y daith hon, Aberdaron a Thyddewi, yn gyrchfannau hynafol i bererinion, ac ar hyd y llwybr gellir gwerthfawrogi cestyll Cricieth, Harlech ac Aberteifi, ynghyd â phentref Eidalaidd Portmeirion a thref brifysgol fywiog Aberystwyth, a'i uchafbwynt diwylliannol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ffordd y Gogledd
The North Wales Way

Taith fer drwy'r canrifoedd

Er mai prin 75 milltir o hyd ydyw, mae'r daith hon o'r dwyrain i'r gorllewin yn croesi miloedd o flynyddoedd o hanes, ynghyd â llwybr masnachu a ddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid ar un adeg. O Ffynnon Gwenffrewi i Amgueddfa Lechi Llanberis, a chromlechi Celtaidd Ynys Môn, mae'n cynnwys pob cyfnod o hanes cyfoethog Cymru.

Mwy o gestyll na'r unlle arall

Nid oes un man arall yn y byd ble ceir cynifer o gestyll mewn ardal mor fach. Mae'r enwocaf ohonynt yn creu safle Treftadaeth y Byd UNESCO: Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech. Adeiladwyd rhai perlau, fel Bodelwyddan a Dolbadarn, gan Dywysogion Cymru, tra bo'r cenedlaethau mwy diweddar wedi codi plastai gwledig crand fel Plas Newydd a Chastell Penrhyn.

Golwg ar y Gymraeg a'i diwylliant

Mae Gogledd Orllewin Cymru'n gadarnle'r Gymraeg. Bydd ymwelwyr yn ei chlywed yn cael ei defnyddio bob dydd, mewn siopau ac ar y strydoedd. Tref brifysgol fywiog yw Bangor, a'r iaith yn iaith fyw ymysg y bobl leol a'r myfyrwyr fel ei gilydd.

Atyniadau i'r teulu cyfan

Mae Ffordd y Gogledd yn gryno a hylaw, ac felly mae'n ddewis ardderchog i deithwyr â phlant. Mae'n hawdd cyrraedd Eryri a chyfoeth o atyniadau sy'n wych ar gyfer teuluoedd, fel Sw Môr Môn a Pharc Gelli Gyffwrdd. Ceir traethau hyfryd ar hyd yr arfordir, sy'n berffaith ar gyfer picnic, cestyll tywod a throchi eich traed yn y môr.

Partneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae Croeso Cymru, awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth o bob cwr o Gymru'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a gyflwynir gan Ffordd Cymru.

Mae prosiectau partneriaid wedi creu llwybrau taith, mapiau a llwybrau thematig i'w gwneud hi'n haws i ymwelwyr ymlwybro ar hyd Ffordd Cymru. Mae mentrau marchnata — yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol — yn achub ar y cyfle ar y cyd i ddangos y cyfoeth o brofiadau y gall ymwelwyr eu mwynhau ar hyd Ffordd Cymru ac maent eisoes yn ennill sylw rhyngwladol.

Partneriaeth frand Croeso Cymru ac Aston Martin

Yn 2017 cyhoeddodd Aston Martin mai Sain Tathan fyddai'r ganolfan weithgynhyrchu ar gyfer eu model DBX newydd.
O ganlyniad, datblygwyd partneriaeth frand cryf rhwng Croeso Cymru ac Aston Martin, gan arwain at gynhyrchu ffotograffiaeth a ffilmiau brand o ansawdd uchel, oedd yn rhoi sylw i gar Aston Martin ar Ffordd y Gogledd.

Yn ystod lansiad Ffordd Cymru yn ExCel yn Llundain, cafwyd cryn sylw rhyngwladol o ganlyniad i frandio ar y cyd a oedd yn cynnwys Aston Martin coch o flaen delweddau o Ffordd Cymru ar sgrin sinema fawr.

Partneriaeth farchnata Croeso Cymru a KLM

Roedd y prosiect hwn yn destun cydweithio rhwng Croeso Cymru, KLM (Royal Dutch Airlines), Maes Awyr Caerdydd a threfnwyr teithiau yn yr Iseldiroedd a'r Almaen, drwy gyfuno amserlenni teithio Ffordd Cymru, a'u cysylltu â theithiau awyren uniongyrchol KLM i Gaerdydd; cawsant eu dosbarthu drwy wefannau ymgyrchu OntdekWales.nl ac ErlebeWales.de. Roedd y bartneriaeth hon yn rhoi amserlenni hygyrch, hawdd eu harchebu gan Drefnwyr Gwyliau, ar gyfer darpar ymwelwyr â Chymru.

> "I KLM, mae'r cydweithio unigryw hwn rhwng gwerthu a chodi ymwybyddiaeth wedi bod o werth ychwanegol sylweddol i'n hediadau o Amsterdam i Gaerdydd, sy'n cael ei adlewyrchu'n amlwg yn ein systemau Adrodd ar Berfformiad."
>
> **Hugo van Joolen**
> Cyfarwyddwr Gwerthiannau Rhyngwladol a Phartneriaethau Masnachol, Twristiaeth a Datblygu Cyrchfannau Air France — KLM

Gweithgaredd y diwydiant teithio

Mae'r tîm diwydiant teithio yn Croeso Cymru'n canolbwyntio ar feithrin gwerthu gwyliau yng Nghymru drwy gyfrwng rhaglenni trefnwyr gwyliau. Maen nhw'n mynychu / arddangos mewn sioeau masnach allweddol ac mewn gweithdai busnes i fusnes (B2B); yn cynnal ymweliadau ymgynefino; yn darparu amserlenni, gwybodaeth am gynnyrch a diweddariadau. Mae Ffordd Cymru wedi rhoi cynnig newydd, cryf, i'w werthu i drefnwyr. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, nodwyd bod 130 taith / rhaglen daith newydd i Gymru wedi'u creu yn 2018; roedd 75 gan drefnwyr yn Ewrop, 55 oddi allan i Ewrop.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio gyda'r fasnach deithio, gweler tudalennau 36–37.

Ffordd yr Arfordir: Ymgyrch farchnata ar y cyd*

Yn y prosiect traws-sirol hwn, daeth Sir Benfro, Ceredigion a Gwynedd at ei gilydd i wella tueddiadau tymhorol, cynyddu gwariant gan ymwelwyr a thargedu ymwelwyr tro cyntaf, drwy ddarparu dwy brif elfen — creu cynnwys, ar ffurf rhaglenni taith, fideo, delweddau, testun golygyddol a deunyddiau hyrwyddo; ac ymgyrch farchnata aml-sianel yn targedu'r farchnad dwristiaeth ryngwladol.

Blas Cambrian Taste: Map taith fwyd*

Mae Blas Cambrian Taste yn fenter sy'n hybu busnesau bwyd a diod lleol ar hyd Ffordd Cambria o Gaerdydd i Landudno. Fe'i rhennir yn bedwar prif faes ac mae'n cynnwys lleoedd ble gellir prynu a phrofi bwyd a diod lleol, gan gynnwys siopau, delis, cynhyrchwyr, marchnadoedd, gwyliau bwyd, caffis, tafarndai, bwytai a phrofiadau bwyd a diod.

Mae'r map hefyd yn dangos mannau eraill o ddiddordeb bwyd a diod o fewn taith 40 munud oddi ar yr A470.

Ffordd y Gogledd: Datblygu'r llwybrau lleol*

Daeth y pedair ardal rheoli cyrchfannau yng Ngogledd Cymru at ei gilydd i gynnal cyfres o weithdai a holiadur ar-lein i gasglu syniadau gan ddarparwyr twristiaeth ynghylch llwybrau posib a allai gysylltu â Ffordd y Gogledd. Arweiniodd hyn at gynhyrchu saith map rhyngweithiol y gellir eu lawrlwytho sy'n ymdrin â'r ardal gyfan gan nodi atyniadau allweddol, mannau i fwynhau'r golygfeydd a dewisiadau teithio aml-ddull i gyd-fynd â phrofiadau nodweddiadol ar hyd y prif lwybr.

*Derbyniodd y prosiectau hyn gyllid drwy gyfrwng y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) / Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TIPF) ac fe'u cefnogir drwy Raglen Ddatblygu Wledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth 2014–2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru. Bwriad y gronfa yw gwella profiadau ymwelwyr a chreu cyrchfannau cryfach drwy gydweithio.

Cyfeillion Ffordd Cymru.

The Rocks at Plas Curig
Hostel yng Nghapel Curig, Eryri

Mae Christian ac Annie yn ŵr a gwraig sy'n rhedeg yr unig hostel annibynnol 5* yng Nghymru, sydd hefyd yn hapus i groesawu cŵn. A hwythau ar dân dros hybu'u rhanbarth i weddill y byd, fe wnaethon nhw helpu i ddatblygu mapiau llwybrau lleol sy'n cysylltu â Ffordd y Gogledd — ac maen nhw bellach yn falch o'u rhannu â'u cwsmeriaid.

"Bydd 10,000+ o bobl, o bob cwr o'r byd yn aros gyda ni bob blwyddyn. Mae ymwelwyr yn gofyn yn aml i ni am bethau i'w gweld a'u gwneud. Mae Ffordd Cymru'n ddull rhagorol o'u cyfeirio nhw, ac mae'r mapiau llwybr lleol yn wirioneddol ddefnyddiol ar gyfer ei rhannu."

Christian ac Annie Wynne
Perchnogion

The Hours
Caffi, siop lyfrau a deli, Aberhonddu

Mewn adeilad gwyrdd anarferol ym mhrif dref Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae The Hours yn lle delfrydol i eistedd, ymlacio ac ymgolli. Mae'r caffi'n cynnig bwyd cartref blasus sy'n cael ei baratoi'n ffres, ac mae'r deli drws nesaf yn falch o arddangos y gorau o gynnyrch Cymru — mae'n un o sawl cyrchfan bwyd rhagorol ar lwybr Blas Cambrian Taste.

"Mae Ffordd Cymru'n syniad gwych — mae'n cysylltu'r gogledd a'r de drwy gyfrwng ymrwymiad go iawn i fwyd a diod da ac ar yr un pryd yn hybu ein hymdeimlad cyfun o hunaniaeth a threftadaeth. Drwy gydweithio gyda busnesau tebyg o'r un fryd yn lleol ac ar draws Cymru, gallwn ychwanegu gwerth ac ysfa go iawn i'r profiad y bydd ymwelwyr yn ei gael ar hyd y tri llwybr epic hyn drwy ein gwlad."

Leigh Hendra
Cyd-berchennog

Pronto
Cwmni llogi cartrefi modur, Caerffili

Mae Naunton Dickins wedi bod yn siarad o blaid Ffordd Cymru ers y dechrau. Mae'i gwmni, Pronto Motorhome Hire, bellach yn hybu canllaw teithio 'Ffordd Cymru Mewn Cartrefi Modur', gan annog eu cwsmeriaid i ddilyn un — neu ragor — o'r tri llwybr craidd.

"Y farchnad deithio antur yw un o'r sectorau twristiaeth sy'n tyfu gyflymaf, ac rwy'n gweld bod hynny, Ffordd Cymru, a llogi cartref modur yn asio'n wych. Mae cartrefi modur yn cynnig ffordd wych o brofi ein gwlad hardd, a Ffordd Cymru yw'r pwynt cychwynnol delfrydol er mwyn i ymwelwyr allu darganfod. Felly mae'n hollol synhwyrol ein bod ni'n asio ein mentrau datblygu cynnyrch a marchnata gydag ymgyrchoedd Croeso Cymru."

Naunton Dickins
Rheolwr Gyfarwyddwr

Ysbryðoliaeth fyð-eang.

Dydyn ni ddim yn ailddyfeisio'r olwyn fan hyn. Gwyddom fod llwybrau cenedlaethol yn gweithio, am eu bod wedi hen ennill eu plwyf mewn gwledydd eraill.

Ceir ffyrdd cenedlaethol eiconig o bwys, fel Route 66 yn UDA, Great Ocean Road yn Awstralia, a Garden Route yn Ne Affrica. Ond rydym ni wedi canolbwyntio ein hymchwil ar wledydd llai o faint, y gallwn ni eu cymharu a'u gwrthgyferbynnu â Chymru.

Rydym ni'n ffodus bod gennym enghreifftiau rhagorol i dynnu arnyn nhw. Maen nhw'n cynnig 'gwersi a ddysgwyd' gwerthfawr, yn ogystal â rhoi awgrym i ni o'r effaith y gall llwybrau cenedlaethol eu cael — yn enwedig wrth ddenu ymwelwyr rhyngwladol.

Un peth sy'n gyffredin rhwng pob un o'r llwybrau hyn yw eu gallu i ysbrydoli ac annog ymwelwyr, gan gynnig canllawiau ar gyfer gwerthfawrogi'r gorau y mae gan bob cyrchfan i'w gynnig.

Norwy
Llwybrau Golygfaol Norwy

Llun: Trine Kanter Zerwekh / Statens vegvesen

Mae'r 18 llwybr golygfaol yn Norwy'n mesur rhyw 1,327 milltir (2,136km) i gyd. Maen nhw'n cynnwys rhai o olygfeydd mwyaf ysgubol Norwy, gan gynnwys mynyddoedd, ffiordau a rhaeadrau syfrdanol o hardd. Ychwanegir at brofiad yr ymwelydd gan bensaernïaeth arloesol a gweithiau celf a ddynodwyd yn olygfannau a llecynnau picnic. Bydd tua 200 o osodiadau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y prosiect yn 2024.

Prif bwyntiau dysgu:

Dyma brosiect 30 mlynedd o hyd (1994–2024) yn seiliedig ar weledigaeth hirdymor, aml-asiantaeth sy'n codi uwchlaw tymhorau unrhyw lywodraeth, strategaethau twristiaeth, cynlluniau trafnidiaeth cenedlaethol a chyllidebau. Mae'r prosiect yn dod â 10 gweinyddiaeth sirol a 60 bwrdeistref ynghyd, yn ogystal â busnesau lleol.

Mae pob un o' r 18 llwybr yn cynnig profiadau o safon fyd-eang, gan gyfuno'r amgylchedd naturiol â gosodiadau celf a phensaernïaeth ar ffurf golygfannau ac ardaloedd i gael saib.

Mae hunaniaeth unigryw'r llwybrau unigol yn cael eu dathlu a'u hybu, ond cânt eu clymu gan elfennau sylfaenol cryf — fel mynyddoedd, ffiordau, rhaeadrau ac arfordir — a'u marchnata fel cynnyrch ar y cyd i ymwelwyr

Mae ardaloedd i gael saib a chyfleusterau cyhoeddus ar hyd y ffyrdd, yn ogystal â'r ffyrdd eu hunain yn cael eu gwella a'u cynnal a'u cadw, a rhennir y cyfrifoldeb mewn dull clir rhwng partneriaid lleol a chenedlaethol.

92% o dwf economaidd yn y fasnach ymwelwyr ar Lwybr Rondane, 2007–2015.

80% o dwf ar Lwybr Varanger, 2010–2015.

"Mae disgwyliadau'r ymwelwyr yn uchel. Rhaid gweithredu a chynnal y gosodiadau, ac mae'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau lleol yn barod i gyfrannu. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod profiad y dirwedd yn cael ei gwarchod wrth wella llwybrau er budd gwell symudedd a diogelwch. Rhaid i fwyd, llety a gweithgareddau lleol fod o'r ansawdd uchaf posib hefyd."

Terje Moe Gustavsen
Cyfarwyddwr Cyffredinol — Gweinyddiaeth Ffyrdd Cyhoeddus Norwy, 2007–2019

Iwerddon
Wild Atlantic Way

Llun: Alison Crummy

Lansiwyd Wild Atlantic Way gan Fáilte Ireland yn 2014, a dyma'r llwybr teithio arfordirol ddiffiniedig hiraf yn y byd. Mae'n ymdroelli ar hyd 1,600 milltir (2,600km) o arfordir Iwerddon â'r Iwerydd, gan gofleidio chwe rhanbarth unigryw a naw sir.

Prif bwyntiau dysgu:

Gwreiddiwyd Wild Atlantic Way yn y weledigaeth a'r strategaeth dwristiaeth genedlaethol ar gyfer Iwerddon.

Meithrinwyd gwir ymdeimlad o berchnogaeth a brwdfrydedd ar lawr gwlad yn sgil cefnogaeth ac egni busnesau lleol.

Mae'r llwybr yn cynnwys 188 Pwynt Darganfod — mannau sy'n cynnig profiad gwirioneddol a phersonol o'r golygfeydd dros fôr a thir i ymwelwyr.

Ceir 15 Pwynt Darganfod Arbennig hefyd — lleoedd eiconig, na ddylid mo'u colli, sy'n cynnig cyfle i aros yn hirach. Mae pob Pwynt Darganfod yn hygyrch ar hyd llwybrau gwledig, mae ganddynt faes parcio neu gilfan oedd yn bodoli eisoes, ynghyd â phaneli dehongli a phwyntiau tynnu lluniau.

Cefnogir y rhaglen gan gynlluniau monitro a rheoli gweithredol cynhwysfawr. Mae Fáilte Ireland yn cydweithio'n glòs ag awdurdodau lleol i gynnal a gwella ansawdd y Pwyntiau Darganfod, a cheir cytundebau lefel gwasanaeth clir pryd bynnag y bydd gwaith yn digwydd.

3.8m o ymwelwyr tramor a 4.4m o deithiau domestig yn 2018 — gyda chyfanswm gwariant o €3bn.

Astudiaeth achos lawn: bit.ly/2uEyqQA

"Mewn prin bedair blynedd, mae Wild Atlantic Way wedi dal dychymyg ymwelwyr o Iwerddon a thramor. Mae hyn yn dyst amlwg i'r bartneriaeth gref rhwng ein diwydiant a thîm Wild Atlantic Way yn Fáilte Ireland."

Miriam Kennedy
Pennaeth Wild Atlantic Way

Yr Alban
North Coast 500

Llun: Mark Appleton Photography

Lansiwyd North Coast 500 (NC500) gan Fenter Gogledd yr Ucheldiroedd yn 2015, ac mae'n lwybr gylchynol 516 milltir (830km) o hyd, sy'n dechrau ac yn gorffen yng Nghastell Inverness. Mae'r llwybr yn dilyn y priffyrdd ar hyd ymylon arfordirol Ucheldiroedd Gogleddol yr Alban.

Prif bwyntiau dysgu:

Denodd NC500 sylw rhyngwladol ar fyrder, gan arwain at filoedd yn fwy o ymwelwyr i ardal Gogledd yr Ucheldiroedd. Fe'i rhestrir yn aml ymysg prif lwybrau twristaidd y byd, ac fe'i disgrifiwyd fel 'Route 66 yr Alban'.

Fe wnaeth yr NC500 greu arlwy twristaidd a oedd yn cysylltu pob rhan o Ogledd yr Ucheldiroedd o dan un brand hyderus ac allblyg. Bellach dan berchnogaeth North Coast 500 Ltd, gyrrir y strwythur cwmni cyfyngedig gan y nod sylfaenol o greu effeithiau economaidd ar gyfer cymunedau a busnesau. Fe'i seilir gan strategaeth fasnachol sy'n cynnwys aelodaeth, noddwyr corfforaethol a buddsoddwyr preifat, a nwyddau.

Er ei bod yn cael ei hystyried gan lawer fel ffordd i yrru ar ei hyd, gwyddys am NC500 fel her ar gyfer beicwyr dygn (*endurance cyclists*). Mae hyn wedi helpu i ymestyn apêl y llwybr yn ogystal â chreu diddordeb a phroffil ychwanegol.

Awgrymwyd mewn straeon newyddion yn 2019 fod NC500 bron wedi troi'n or-boblogaidd, gan ddenu tagfeydd traffig ac anghyfleustra i breswylwyr yn ei sgil. Mae Croeso Cymru wedi nodi hyn: rhan ganolog o'n strategaeth yw rhannu'r baich ymwelwyr yn deg, ac annog teithio aml-ddull.

29,000 yn rhagor o ymwelwyr i'r Ucheldiroedd yn ystod blwyddyn gyntaf NC500, gan ychwanegu £9m i'r economi rhanbarthol.

86% o westai, 78% o fusnesau bwyd a diod, 70% o ddarparwyr gweithgareddau'n nodi cynnydd mewn busnes; cynnydd gwerthiant ar gyfartaledd o ran masnach yn 15–20%.

"Yn ein meincnodi cychwynnol, mae North Coast 500 yn serennu fel un o'r datblygiadau twristiaeth mwyaf llwyddiannus ac arloesol yn y byd dros y blynyddoedd diwethaf."

John Lindquist
The Boston Consulting Group a Visit Britain

Seland Newydd
Priffyrdd Thematig

Mae 10 priffordd thematig Seland Newydd yn cynnwys llwybrau sy'n dolennu a rhai sy'n mynd o un man i fan arall, a phob un wedi'i enwi ag enwau thematig clir, fel Arfordir y Môr Tawel, Syrff, Dolen y Llosgfynyddoedd, Darganfod Thermal a'r Byd Coll. Mae pob llwybr hefyd wedi'u harwyddo'n glir drwy gyfrwng arwyddion brown trawiadol.

Lloegr
The Great West Way

Dan arweiniad VisitWiltshire, mae'r llwybr 125 milltir hwn yn rhedeg ar hyd coridor i'r gorllewin o Lundain hyd at ddinas Bryste. Y bwriad yw gwella profiadau ymwelwyr ar hyd y ffordd, a bod yn addas i ymwelwyr deithio ar ei hyd mewn car, trên, bws, ar feic, cerdded neu mewn cwch.

"Pan fydd gan ymwelwyr nifer penodedig o ddiwrnodau i ymweld â gwlad, mae llwybrau cenedlaethol yn ffordd brofedig o ddechrau ymchwilio a chynllunio taith. Maen nhw'n rhoi 'llwybr tarw' cyfleus, cysurlon all gynyddu dealltwriaeth ymwelydd o wlad."

Bethan Wicks
Croeso Cymru

Y manteision.
Beth allwn ni ei ddysgu gan yr enghreifftiau hyn? Cryn dipyn, fe ymddengys. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod llwybrau twristiaeth yn dod â llawer o fanteision yn eu sgil.

Dyma rai ohonynt:

— Darparu cynnig cryf gydol y flwyddyn, gan wella niferoedd ymwelwyr yn y tymhorau ymylol.

— Rhoi rheswm i aros am fwy o amser ac archwilio y tu hwnt i'r llwybr.

— Mae'n annog ymwelwyr i archwilio ardaloedd sy'n cael llai o ymwelwyr.

— Mae 'crwydro oddi ar y prif lwybr' yn ysgogiad cyffredin ymysg teithwyr annibynnol.

— Mae llwybrau'n darparu pwynt y gellir cyfeirio oddi wrthynt er mwyn darganfod mwy.

— Mae'n rhoi pwynt gwahaniaeth clir sy'n helpu'r ymwelydd i ddewis o blith arlwy eang o ddewis.

— Mae'n dyrannu gwariant ymwelwyr dros ardal ehangach.

— Mae'n helpu i gefnogi busnesau twristiaeth newydd yn rhanbarthol.

— Mae'n darparu pwynt cychwynnol ar gyfer datblygu llwybrau ac amserlenni teithio unigryw, a thripiau.

— Mae'n cyd-fynd â marchnadoedd targed ac anghenion trefnwyr gwyliau.

— Mae llwybrau thematig yn dod yn ganolbwynt tactegol allweddol ar gyfer cynnwys a chynlluniau marchnata.

— Mae llwybrau twristaidd yn fachyn defnyddiol ar gyfer creu sylw cyfryngol.

— Mae'r llwybrau'n dod yn ganolbwynt i arolygon trefnu cyrchfannau a rhestrau 'rhaid gwneud' mewn cyhoeddiadau teithio.

— Mae'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu digwyddiadau unigryw.

— Mae'n cyd-fynd â strategaethau a mentrau ehangach y llywodraeth.

— Mae'n rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i fusnesau lleol: nhw sydd biau'r peth, maen nhw'n ei garu ac maen nhw'n falch ohono.

— Cyfleoedd i greu nwyddau marchnata.

Cyfeillion Ffordd Cymru.

Gwesty Twr y Felin
Gwesty a bwyty, Tyddewi

Adeiladwyd Twr y Felin yn 1806 fel melin wynt weithredol, ond heddiw mae'n cynnig llety moethus sydd wedi ennill gwobrau a bwyty sydd wedi ennill dau rosyn yr AA. Mae'i leoliad, ar begwn mwyaf deheuol Ffordd yr Arfordir, yn cynnig lleoliad cyffyrddus ble gall anturwyr ddechrau neu orffen eu taith ar hyd y llwybr.

"Mae Ffordd Cymru'n hollol wych, a dyna'n union oedd ei angen ar Gymru. Mae hyn bellach yn gyfle i ddarparwyr twristiaeth a lletygarwch, yn ogystal ag atyniadau i wir gysylltu a rhoi Cymru ar lwyfan rhyngwladol er mwyn denu mwy a mwy o ymwelwyr."

Paula Ellis
Rheolwr Cyffredinol y Grŵp

Pentref Portmeirion
Atyniad ymwelwyr, Penrhyndeudraeth

Adeiladwyd Pentref Portmeirion gan y pensaer Cymreig Syr Clough Williams-Ellis, gan ddod yn un o gyrchfannau ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru. Gan gydnabod gwerth y farchnad dwristiaeth ryngwladol, maen nhw'n siarad yn gryf o blaid Ffordd Cymru, ac yn falch o'u lleoliad ar hyd Ffordd yr Arfordir.

"Rydym ni'n gobeithio gweithio'n agos iawn efo Ffordd Cymru, am ein bod ni o'r farn bod hwn yn frand rhagorol â chanddo lawer o botensial. Bydd yn dangos mor wych yw'r hygyrchedd yma yng Nghymru. Rydym ni'n ffyddiog y bydd Ffordd Cymru'n cynyddu'r diddordeb yng Nghymru, nid yn unig ymysg ymwelwyr domestig ond hefyd o du twristiaid rhyngwladol fydd eisiau dod yma."

Meurig Jones
Rheolwr Lleoliad

Castell Aberteifi
Atyniad ymwelwyr, Ceredigion

Y tu ôl i'r waliau canoloesol yng Nghastell Aberteifi, un o uchafbwyntiau Ffordd yr Arfordir, mae 900 mlynedd o hanes yn aros i gael ei ddarganfod. Mae'r Castell yn falch o gael adrodd hanes Cymru, ac yn gwneud hynny trwy gyfrwng darpariaeth dwristiaeth aml-brofiad, sy'n cynnwys arddangosfeydd, digwyddiadau, bwyd a llety.

"Mae Ffordd Cymru'n helpu i becynnu'r rhan hon o Gymru, felly mae gennych chi'r holl elfennau gwahanol — boed ddiwylliannol, hanesyddol, neu'r dwristiaeth sy'n fwy seiliedig ar antur. Mae'n rhagorol ar gyfer busnesau bychain a hyrwyddwyr mwy o faint yng Nghymru am ei fod yn galluogi'r farchnad i apelio at unrhyw un, ac i dynnu pobl i mewn i'r ardal na fydden nhw o reidrwydd wedi dod yma fel arall."

Jac Davies
Cyfarwyddwr

Rheilffordd Tal-y-llyn
Atyniad ymwelwyr,
Gogledd Orllewin Cymru

Rheilffordd Tal-y-llyn, sy'n cael ei hadnabod fel y 'Rheilffordd gyda Chalon Aur', oedd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gael ei chadw. Agorodd y lein dros 150 o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n dal i fynd ag ymwelwyr o Dywyn i Abergynolwyn, drwy dirweddau a golygfeydd gyda'r gorau sydd gan Eryri i'w cynnig. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r uchafbwyntiau ar hyd Ffordd yr Arfordir.

"Rydym ni'n llawn cyffro am Ffordd Cymru, am ei bod yn annog ymwelwyr i fentro oddi ar y brif ffordd er mwyn profi cefn gwlad godidog Cymru — sef yr union beth rydym ni'n ei wneud. Mae'r llwybrau yn hybu cyd-farchnata rhwng busnesau a chyrchfannau unigol, sy'n helpu pob un ohonom i elwa ar y nifer cynyddol o bobl sy'n ymweld â Chymru."

Daniel King
Rheolwr Marchnata

Meɗɗwl yn null Fforɗɗ Cymru.

Mae pob un ohonom yn llysgenhadon dros ein milltir sgwâr. Drwy ddod i adnabod Ffordd Cymru, gallwch agor ffyrdd newydd i ymwelwyr fwynhau'r gorau sydd gennym i'w gynnig.

Dewch i adnabod y llwybrau: i ble maen nhw'n mynd, sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd, a'r atyniadau ac uchafbwyntiau ar eu hyd. Dysgwch yn arbennig am y llwybr sydd fwyaf lleol i chi.

Datblygwch arbenigedd lleol. Byddwch chi'n darparu gwybodaeth gyfrin hanfodol — y naws bersonol a'r awgrymiadau am berlau cudd na all yr un llyfr taith mo'i roi.

Soniwch am y llwybrau wrth i chi groesawu eich gwesteion. Gofynnwch iddynt, 'Ydych chi'n dilyn Ffordd Cymru?'. Mae'n ffordd wych o gyflwyno ein llwybrau cenedlaethol i rywun nad yw erioed wedi clywed amdani.

Cyfeiriwch bob amser at ba mor agos ydych chi at Ffordd Cymru yn eich deunyddiau hyrwyddo print a digidol.

Ewch i fod yn ymwelydd am ddiwrnod yn eich milltir sgwâr. Ewch â'ch staff ar daith ymgynefino i archwilio drosoch eich hunain sut y gallai ymwelydd o dramor weld eich ardal.

Cynigiwch wybodaeth leol arbenigol i siwtio pob math o ymwelydd: teuluoedd, parau, bwydgarwyr, perchnogion cŵn ac ymwelwyr sy'n fwy cyfyng o ran symudedd.

Cysylltwch â'r llwybrau craidd drwy dynnu sylw at lwybrau cerdded, beicio a marchogaeth sy'n dolennu â nhw. Bydd llwybrau dolennog yn faes datblygu blaenoriaeth dros oes y rhaglen.

Dyma brawf.

Dychmygwch fod ymwelydd yn cyrraedd eich busnes. Maen nhw'n dilyn Ffordd Cymru, ac maen nhw'n holi'r cwestiynau hyn. Allwch chi — a'ch staff — roi atebion?

01.
Beth sy'n addas i blant ar hyd y llwybr?

02.
Pa nodweddion neu bwyntiau diddordeb yn y dirwedd ddylem ni edrych amdanynt?

03.
Oes 'na gestyll, gerddi ac atyniadau diwylliannol eiconig ar hyd y llwybr?

04.
Oes 'na gylchdeithiau hardd drwy'r wlad y galla i eu cymryd i ddod â mi'n ôl i'r brif lwybr?

05.
Ble mae'r golygfannau gorau?

06.
Ydy hi'n hawdd parcio, ac yn hygyrch i gadeiriau olwynion neu fygis?

07.
Pa fwyd a diod lleol unigryw ddylen ni fod yn ei flasu ar hyd y ffordd?

08.
Beth yw enwau'r cadwyni mynyddoedd rydyn ni'n pasio drwyddyn nhw?

09.
Pa afonydd fyddwn ni'n eu croesi?

10.
Beth yw ystyr yr enwau lleol Cymraeg yn Saesneg?

11.
Pa fywyd gwyllt sy'n unigryw yn yr ardal hon?

12.
Pa mor agos ydyn ni at y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol?

13.
Pa mor agos ydyn ni at lwybr cerdded lleol neu Lwybr Cerdded Cenedlaethol?

14.
Pa mor agos ydyn ni at Lwybr Arfordir Cymru?

15.
Oes 'na ddigwyddiadau neu wyliau'n digwydd yn yr ardal hon yn ystod ein cyfnod yma?

Dechrau arni

Edrych i'r dyfodol.

Mae hi'n ddyddiau cynnar o hyd. Menter 10 mlynedd yw Ffordd Cymru, felly meddyliwch am gynllunio i'r dyfodol. Nid elwa yn y tymor byr yn unig sy'n cyfri, ond am flynyddoedd i ddod.

Cysylltu a rhwydweithio.
Cyflwynwch eich hunan i ymwelwyr fel cymuned gref sy'n croesawu ymwelwyr ac sy'n cydweithio i sicrhau bod eu harhosiad yn un cofiadwy. Crëwch lwybr 'ar hyd ffordd arall' sy'n cynnwys busnesau twristaidd a phwyntiau diddordeb eraill. Datblygwch fap.

Cynllunio ar gyfer gofynion sy'n esblygu.
Bydd y gyfran o boblogaeth y byd sydd dros 60 oed yn dyblu dros y 35 mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, marchnadoedd y dyfodol fydd y 'Mileniaid' a 'Chenhedlaeth Z'.

Creu profiadau.
Rydym ni'n gweld symudiad byd-eang i gyfeiriad cynnyrch sy'n cynnig 'profiadau'. Mae newyddiadurwyr a dylanwadwyr yn holi yn ddyddiol am brofiadau hollol unigryw, triw a all newid bywydau. Maen nhw'n edrych y tu hwnt i'r cyffredin er mwyn creu straeon i'w rhannu.

Creu ymdeimlad o berthyn.
Bydd ymgysylltu ymwelwyr â dosbarthiadau lleol a digwyddiadau cymunedol yn cyfoethogi'u profiad, gan beri iddyn nhw deimlo'n rhan o'r gymuned — nid rhywun o'r tu allan — tra bo nhw'n aros gyda chi.

Dewch yn dywysydd gwyliau amatur.
Adroddwch stori dda — bydd hyn yn cyfoethogi'r atgofion y byddwch chi'n eu creu ar gyfer ymwelwyr, ac yn cynyddu'u teyrngarwch.

Ein hiaith sy'n ein gwneud ni'n unigryw.
Mae Mileniaid yn dueddol o gofleidio ieithoedd newydd. Maen nhw eisiau gweld, clywed a rhoi cynnig ar siarad Cymraeg.

Dysgwch gan y gorau.
Dewch yn gyfarwydd â'r modd y gwnaed hyn yn llwyddiannus mewn gwledydd eraill.

Cyfeillion Ffordd Cymru.

Celticos
Trefnydd teithiau tywys,
Gogledd Orllewin Cymru

Mae Celticos wedi creu busnes drwy fynd ag ymwelwyr ledled Cymru ar deithiau tywys preifat dyddiol a gwyliau aml-ddydd. Mae'u pecyn yn cynnwys rhaglenni thematig a diddordeb arbennig, a llawer ohonynt yn dolennu a phlethu â llwybrau Ffordd Cymru sy'n cael eu hyrwyddo ar eu gwefan.

"Mae ein cwsmeriaid ni'n chwilio am flas o Gymru go iawn — ein hiaith, ein diwylliant, ein treftadaeth a'n tirwedd. Maen nhw eisiau gweld rhai o drysorau cudd ein cenedl, yn ogystal â'r mannau mwy eiconig, a dyna holl bwrpas Ffordd Cymru. Gall busnesau fel ein un ni wasgu budd enfawr allan o'r cyfle marchnata rhyngwladol sy'n cael ei gynnig gan Ffordd Cymru."

Alwyn Griffith
Rheolwr Gyfarwyddwr

Zip Worlð
Busnes twristiaeth antur,
Gogledd Cymru

Mae Zip World wedi creu 'Priffordd Antur' yn seiliedig ar lwybr sy'n cysylltu rhwng y tri safle eiconig sydd ganddynt yng ngogledd Cymru. Gan gyffwrdd â Ffordd y Gogledd a Ffordd Cambria, dyma offeryn delfrydol ar gyfer chwilota igam ogam — ac yn enghraifft ragorol o'r modd y gall busnesau greu'u llwybrau a'u rhaglenni'u hunain.

"Rydym ni eisiau datblygu'r Briffordd Antur ymhellach er mwyn cynnwys rhagor o fusnesau a phwyntiau diddordeb, er mwyn i'n cwsmeriaid gael eu hannog i aros yn hwy a mwynhau'r holl bethau anhygoel sydd gan ein hardal i'w cynnig. Mae cael menter â ffocws rhyngwladol fel Ffordd Cymru i wthio hyn ymhellach yn beth da iawn."

Andrew Hudson
Cyfarwyddwr

Hawarðen Estate Farm Shop
Siop fferm a chaffi,
Sir y Fflint

Y siop fferm hon a leolir ar ystâd hanesyddol a hardd yn Sir y Fflint yw'r profiad unigryw cyntaf ar hyd Ffordd y Gogledd. Maen nhw'n cynnig rhywle ble gall ymwelwyr oedi ar ddechrau'u hantur ar draws y rhanbarth, gan fwynhau caffi bywiog, cigydd, deli a neuadd fwyd, bar brechdanau i fynd, yn ogystal â lle chwarae i blant, lle i gynnal digwyddiadau a fferm hel-eich-hun.

"Mae'n fantais enfawr i ni ein bod ni ar Ffordd y Gogledd. Wrth i fwy a mwy o bobl stopio gyda ni, a dod i archwilio'r ardal ehangach, mae gennym hyder i dyfu'r busnes ac ymestyn ein rhaglen o ddigwyddiadau er mwyn rhoi blas go iawn i bobl o fwyd, diwylliant ac amgylchedd rhagorol ein rhanbarth."

Vicky Gladstone
Rheolwr Digwyddiadau

Yðych chi'n baroð i foð yn rhyngwlaðol?

Daw ymwelwyr rhyngwladol i brofi diwylliant Cymreig — ond mae hefyd yn werth oedi am eiliad i ddeall diwylliant ein gwesteion.

Yn aml, bydd gan ymwelwyr o'r Unol Daleithiau, Japan, yr Almaen ac India, dyweder, safonau diwylliannol eithriadol o wahanol ynghylch... wel, popeth bron: cyswllt llygaid, uniongyrchedd, anffurfioldeb, hiwmor, gofod personol, prydlondeb, alcohol a bwyd. Bydd ganddynt agweddau diwylliannol at wleidyddiaeth, hanes, crefydd, rhywedd, oedran, gwisg a statws. Ac ar ôl dweud hynny, nid yw pawb yn cydymffurfio â'u stereoteip cenedlaethol.Mae pob un, o ble bynnag y daw, yn unigolyn. Yn union fel ni. Vive la difference!

Amser.
Dechrau'n gynnar neu hwyr? Gall 'cynnar' olygu 7am neu 11am, yn ddibynnol ar ddiwylliant.

Prydlondeb.
Mae rhai diwylliannau'n ddigon hamddenol; mae eraill yn brydlon iawn, gan ddisgwyl i eraill fod yr un peth.

Cyflymder.
Bydd y farchnad o'r Dwyrain fel arfer yn mwynhau i bethau ddigwydd yn gyflymach nag y bydd teithwyr o Hemisffer y Gorllewin.

Bwyd.
Llysieuol, figan, Jain, halal, kosher — mae gan sawl diwylliant reolau deiet llym.

Ymwelwyr rhyngwladol: y manteision.

Mae digonedd o resymau da dros ddenu ymwelwyr rhyngwladol. Dyma rai ohonynt.

Gall ymwelwyr rhyngwladol ateb diffygion tymhorol. Maen nhw'n tueddu hefyd at deithio ar hyd yr wythnos, yn hytrach na chanolbwyntio ar benwythnosau.

Maen nhw'n gwario mwy: ar gyfartaledd, dair gwaith cymaint â theithwyr domestig ar bob taith.

Mae'r amser rhwng archebu a dod ar wyliau'n hirach, gan roi mwy o amser i chi allu cynllunio eich busnes.

Bydd ymwelwyr rhyngwladol yn mynd â negeseuon cadarnhaol am Gymru fel lle i fyw, gweithio a gwneud busnes ynddo adre gyda nhw. Maen nhw'n troi'n fyddin o lysgenhadon.

Gall gweithio ar draws ystod o farchnadoedd domestig a rhyngwladol daenu'r risg sy'n dod yn sgil amrywiaethau neu newidiadau mewn un farchnad benodol.

Y ffeithiau:
— Mae twristiaeth yn cynhyrchu £6.3 biliwn i economi Cymru'n flynyddol, gan greu swyddi a hybu twf economaidd.
— Fe wariodd ymwelwyr rhyngwladol â Chymru £405miliwn yn 2018.
— Bydd ymwelwyr rhyngwladol yn aros yn hirach a gwario mwy: gwariant fesul taith ar gyfartaledd yw £430, o'i gymharu â £185 ar gyfer teithwyr domestig y DU.
— Iwerddon sy'n darparu'r nifer fwyaf o ymwelwyr â Chymru, yna Ffrainc, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Adnabod eich marchnad.
Mae Ffordd Cymru'n gyfle rhagorol i dargedu'r ymwelydd rhyngwladol sy'n gwario mwy. Dyma bortreadau amlinell o ymwelydd cyffredin o Ewrop Agos a Gogledd America, sy'n cael eu targedu gan Croeso Cymru.

Marchnadoedd Targed Ewrop Agos

Ceiswyr Antur 18–45
Ifanc ac yn llawn chwilfrydedd am gael darganfod y byd a diwylliannau gwahanol, ac yn awyddus i ddysgu a chanfod. Maen nhw'n rhoi mwy o bwys ar brofiadau ac anturiaethau dilys nag ar ymweld â nodweddion clasurol. Dyna pam fod eu dull o gynllunio gwyliau'n hyblyg a digymell.

Anturiaethwyr 45–65+
Wedi'u haddysgu'n dda ac yn arfer â theithio. Eu nod yw dyfnhau'u gwybodaeth a dysgu cymaint ag y gallan nhw ar eu gwyliau. Felly cynlluniwyd popeth yn fanwl ymlaen llaw. Maen nhw'n mwynhau profi a deall diwylliant lleol. Maen nhw'n canolbwyntio ar ymweld â'r mannau enwog, eiconig — ond maen nhw'n awyddus iawn i brofi byd natur hefyd.

Marchnadoedd Targed UDA

Ceiswyr Antur 18–45
Maen nhw'n eiddgar ac yn llawn mynd, a nod y grŵp hynod gymdeithasol hwn yw darganfod gwyliau antur yn llawn o bethau i'w gwneud. Maen nhw'n gystadleuol ac yn hoffi dangos eu hunain, ond mae ganddynt yn ogystal ddiddordeb gwirioneddol yn y lle maen nhw'n ymweld ag ef, ei hanes, diwylliant a phobl. Maen nhw'n eithafol ddibynnol ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd y grŵp hwn yn gofyn am syniadau ac awgrymiadau gan bob un o'u ffrindiau (y byddan nhw'n ceisio achub y blaen arnynt), yn ogystal â rhannu'u holl brofiadau wedyn.

Ymwelwyr 45–65+
Cymharol gyfoethog, â digon o amser, mae'r grŵp hwn yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i deithio, gan anturio i leoedd newydd ac ailymweld â rhanbarthau sy'n annwyl iddynt na chawsant gyfle i'w gweld yn ystod eu gyrfaoedd prysur. Maen nhw'n addysgedig a soffistigedig, ac mae ganddynt ddiddordeb byw mewn hanes, diwylliant a'r celfyddydau, a dewisant wyliau sy'n eu herio'n ddeallusol, gyda chryn dipyn o foddhad a moethusrwydd o'r safon uchaf.

Y farchnad ddomestig

Mae Dyrannau Marchnad Darged ddomestig Croeso Cymru'n rhannu agwedd gyffredin at fynd ar wyliau. Mewn termau eang, maen nhw'n 'Anturiaethwyr Annibynnol', sy'n torri'n ddyrannau yn ôl marchnad — e.e. Anturiaethwyr Gweithgar Teuluol, Anturiaethwyr Gweithgar grwpiau a chyplau, Anturiaethwyr Golygfeydd cyplau.

Cynnwys digidol.
Mae'n hanfodol cael delweddau a fideos ansawdd uchel o'ch busnes twristiaeth ar gyfer ymgysylltu ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol a digidol.

Yn y manylion mae'r maglau.
Wrth ddefnyddio modelau, peidiwch â'u gwisgo â dillad sy'n dangos brand, a rhowch ddillad plaen a syml amdanynt i osgoi achosi i'r lluniau fynd i edrych yn hen ffasiwn.

Cofiwch am reolau GDPR.
Pan fydd pobl yn weladwy ac yn gallu cael eu hadnabod, bydd angen eu cydsyniad arnoch i ddefnyddio a dosbarthu'r llun — yn aml drwy gyfrwng ffurflen ryddhau wedi'i llofnodi.

Osgoi onglau 'hwyliog'.
Lluniau uniongyrchol ac o safbwynt naturiol sy'n gweithio orau.

Osgoi ffilteri ac effeithiau gormodol.
Dilys a gonest yw'r hyn y mae'r teithiwr o chwaeth yn chwilio amdano.

Lluniau drôn.
Dyma ddull cyfoes iawn o gyflwyno eich cynnyrch. Defnyddiwch ffotograffydd drôn trwyddedig bob amser.

Cinegraffau.
Mae'r delweddau diffiniad uchel hyn, sy'n cynnwys elfen gynnil o symud, yn tyfu o ran poblogrwydd.

Rhowch gapsiwn bob tro.
Cofiwch gynnwys gwybodaeth fanwl am leoliadau gyda ffotograffau.

Gweithio gyda'r diwydiant.

Mae ystod o sefydliadau'n gweithio fel cyfryngwyr yn y diwydiant teithio. Yn eu plith mae: asiantwyr teithio, trefnwyr teithiau, asiantaethau teithio ar-lein (OTAs), Cwmnïau Rheoli Cyrchfannau (DMCs), cynllunwyr digwyddiadau a thai anogaeth.

Cyfeirir at y sefydliadau hyn fel 'prynwyr' hefyd. Gelwir busnesau a leolir yng Nghymru, fel llety, atyniadau, arweinwyr teithiau a darparwyr gweithgareddau yn 'ddarparwyr'. Yn Croeso Cymru, mae'r tîm diwydiant teithio'n hwyluso busnes rhwng darparwyr a phrynwyr.

Os hoffech greu gwerthiant ychwanegol, er mwyn cynyddu'r nifer o ymwelwyr a llenwi mwy o leoedd, efallai yr hoffech ystyried gweithio gyda'r fasnach deithio hamdden. Dyma ambell syniad da sydyn i'ch rhoi ar ben y ffordd.

Rhowch yr holl fanylion perthnasol ar fas data'r cynnyrch ar croesocymru.com

Defnyddiwch ein hashnodau #MasnachDeithioCymru a #CwrddYngNghymru a dilynwch ni @MasnachCroesoCymru @CwrddYngNghymru.

Dywedwch wrthym am eich cynnyrch a chofiwch ein diweddaru â straeon, cynnwys o safon uchel a datblygiadau newydd (productnews@llyw.cymru) er mwyn i ni allu rhoi sylw iddo ar ein gwefannau, ar sianelau cymdeithasol, yn ein gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus ac wrth sgwrsio â darpar gyfryngwyr a phrynwyr y diwydiant teithio.

Cysylltwch i gael eich cynnwys (am ddim) ar Gyfeiriadur Cyflenwyr ar-lein VisitBritain.

Defnyddiwch hashnod VisitBritain, #lovegreatbritain a dilynwch eu sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogwch raglenni teithiau ymgynefino ac ymweliadau cyfryngau Croeso Cymru a VisitBritain.

Mynychwch ddigwyddiadau neu arddangosfeydd i gwrdd â'r diwydiant teithio.

Cydweithiwch ag eraill yn eich rhanbarth neu fath o gynnyrch er mwyn cyflwyno a hybu eich cynnig.

Ystyriwch ymaelodi â chyrff proffesiynol all eich darparu â rhwydwaith barod o gysylltiadau a digwyddiadau ble gallwch gwrdd â nhw — UKinbound, European Tour Operators Association, ac ati.

Cynghorion call ar gyfer gweithio gyda'r diwydiant teithio.

Nid eich cwsmer arferol mo gweithwyr proffesiynol y diwydiant teithio — felly mae'n werth buddsoddi ychydig o amser i ddysgu beth sy'n eu gyrru.

Gwneud eu bywydau'n hawdd.
Fe all gweithredwyr fod yn gweithio gyda lliaws o fusnesau a rhaglenni mewn swyddfa sydd o dan bwysau. Os ydych chi'n hawdd ymwneud â nhw, byddan nhw wrth eu bodd â chi.

Ymateb yn gyflym.
Y cyntaf i'r felin gaiff falu. A chofiwch am unrhyw wahaniaeth amser rhyngwladol: efallai mai eich nos chi yw eu diwrnod gwaith nhw.

Cŵn Caer.
Ewch i'r afael â'ch cyfraddau, gosodwch nhw ar lefel ffafriol, e.e. cyfraddau'r diwydiant teithio, a chynigiwch gyfle i archebu teithiau ac i gael manteision ar y cyfle cyntaf — bydd trefnwyr yn llogi hyd at ddwy flynedd ymlaen llaw.

Chwarae'r gêm hir.
Efallai eich bod wedi cysylltu â threfnwyr a chynllunwyr digwyddiadau nawr, ond efallai na fydd yr archeb yn cael ei wneud am sawl blwyddyn. Cyfle hirdymor yw hwn.

Adnabod y farchnad.
Mae'r sianelau dosbarthu'n amrywio ymhob marchnad, felly os ydych chi'n targedu marchnad benodol, mae'n bwysig deall y dirwedd.

Siarad plaen.
Ni fydd pob trefnwr yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, felly gwnewch yn siŵr bod unrhyw gopi / neges e-bost ac ati yn hawdd eu deall, a pheidiwch â defnyddio slang, acronymau nac idiomau.

Amlieithog.
Cynigiwch wybodaeth mewn sawl iaith mewn llety i ymwelwyr, atyniadau, lleoliadau a gwestai.

Ychwanegu gwerth.
Ystyriwch gynnig gwerth ychwanegol ar gyfer ymweliadau grŵp neu gymhelliad, e.e. taith gyda'r garddwr, neu gyflwyniad i'r pryd bwyd gan y cogydd. Gallech godi tâl am y cyfle hwn hefyd, yn dibynnu ar yr hyn a gynigir gennych.

Amseru perffaith.
Rhowch gyngor iddynt ynghylch faint o amser fydd ei angen yn eich safle chi, er mwyn i drefnwyr allu creu amserlen deithio yn unol â hynny. Fel arfer, awr fyddai'n cael ei ddynodi — ond mae'n amrywio yn ôl maint yr atyniad ac unrhyw werth ychwanegol y gallech chi ei gynnig.

Cydweithio.
Cydweithiwch â busnesau lleol eraill sy'n gyfeillgar i'r diwydiant teithio a digwyddiadau busnes. Mae'n haws i drefnydd weithio gydag un busnes na llawer ohonynt.

Cyffyrddiad personol.
Os ydych chi'n cynnal ymweliad ymgyfarwyddo neu addysgol, cofiwch groesawu'r trefnwyr a'r cynllunwyr yn bersonol, ac esboniwch beth allwch chi ei gynnig i'r diwydiant teithio, i gynllunwyr digwyddiadau ac fel ysgogiad — a pheidiwch ag anghofio rhannu manylion cyswllt.

Gweld y darlun mawr.

Mae popeth a wnawn ni'n gweddu i set ehangach o werthoedd cenedlaethol. Mae popeth yn ymwneud â gwneud y peth cywir.

Pier Llandudno, Conwy

Hygyrchedd

Wyddech chi fod un o bob pum person yn y DU yn byw â nam, a all effeithio ar ble y byddan nhw'n aros neu'n ymweld ag ef? Gall Canllaw Hygyrchedd eich helpu i gyfathrebu pa gyfleusterau a gwasanaethau sydd gennych ar gyfer pobl anabl.
bit.ly/2MTAAWt

Datblygu ymdeimlad o le

Mae llawer o bethau'n gwneud i Gymru deimlo'n Gymreig. Gallwch archwilio syniadau sy'n seiliedig ar hunaniaeth er mwyn creu naws am le ar gyfer eich busnes, ac i'w wreiddio yn eich stori leol.
bit.ly/31GRtao

Strategaeth fwyd

Mae bwyd yn rhan hanfodol o'r cynnig a wneir i ymwelwyr yng Nghymru, am ei fod, gellid dadlau, yn darparu'r pwynt cyswllt mwyaf cyffredin ag ymwelwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymdrin yn gywir â bwyd gyda chymorth ein pecyn cymorth.
bit.ly/2OJNZBi

Teithio gwyrdd

Mae'n benbleth i'r teithiwr eco-ymwybodol: sut i fwynhau mannau gwyllt gan adael dim ond ôl troed ysgafn. Dyma sampl o daith:
bit.ly/31EU7NP

Anogwch eich ymwelwyr i ddarganfod Cymru drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ble bynnag y bo'n bosib.
cymraeg.traveline.cymru

Pecyn cymorth twristiaeth

Cynlluniwyd y canllaw hwn i roi'r offer, gwybodaeth a chysylltiadau allweddol sylfaenol i chi er mwyn i chi ddod yn rhan o'r farchnad dwristiaeth ar y ffordd i mewn.
bit.ly/2RRf6I9

Ffotograffiaeth

Dylai delweddau marchnata ddangos ein gwlad mewn dull gonest, gwir a gwreiddiol. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth.
bit.ly/2XjQHRm

Mae casgliad helaeth o ddelweddau ffotograffig o safon uchel ar gael i'w defnyddio gyda chymeradwyaeth drwy gyfrwng Wales on View.
walesonview.com

Hybu anturiaethau diogel

Mae sawl modd y gallwch ymgorffori negeseuon Anturio'n Ddoeth Cymru yn yr wybodaeth a ddarparwch i'ch cwsmeriaid. Mae'r negeseuon a'r deunyddiau ar gael i'w defnyddio'n rhad ac am ddim, gan gynnwys tri fideo byr, posteri a phecyn offer i fusnes.
adventuresmart.uk/cy/home-cy

Ail-lenwi Cymru

Ymgyrch a enillodd wobrau, a gynlluniwyd i helpu lleihau llygredd gan blastig. Mae'n hawdd i ymwelwyr ddod o hyd i'r orsaf ail-lenwi cariwr dŵr drwy fewngofnodi i'w Ap. Defnyddiwch hyn fel cyfle i gael ymwelwyr aros yn eich busnes chi i ail-lenwi eu poteli dŵr wrth iddynt deithio ar hyd Ffordd Cymru.
refill.org.uk/refill-cymru

Gwasanaeth Bws TrawsCymru

Mae rhwydwaith bysiau pell TrawsCymru yn rhan bwysig o rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru. Mae'n rhad ac am ddim ar benwythnosau, ac yn ffordd ragorol o ddarganfod Ffordd Cymru mewn dull hygyrch, fforddiadwy ac ecogyfeillgar.
cy.trawscymru.info

Pecyn Offer Llwybr Arfordir Cymru

Adnodd ar-lein, rhad ac am ddim, a gynlluniwyd i helpu busnesau arfordirol i farchnata'u busnes drwy ddefnyddio tynfa Llwybr Arfordir Cymru.
bit.ly/2MIJUe5

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn creu Cymru fwy cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r Saith Nod Llesiant a gweithredu'r Pum Dull o Weithio a restrir yma:
futuregenerations.wales/cy

Y Gymraeg

Mae ein hiaith yn unigryw i ni, felly rhowch gynnig ar ddefnyddio ychydig o Gymraeg o gwmpas eich cwsmeriaid. Mae swyddogion Cymraeg mewn Busnes ar gael i'ch helpu, yn rhad ac am ddim, i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes.
bit.ly/2GT6JrJ

Buddsoddi yn eich cynnyrch.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n dal ati i gynyddu a gwella'r cynnyrch, y digwyddiadau a'r profiadau sy'n denu ymwelwyr i Gymru. Rydym ni'n cefnogi syniadau a phrosiectau arloesol er mwyn cyflawni hyn.

Rydym ni'n croesawu'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil Ymgyrchoedd 'Blwyddyn', gan annog busnesau twristiaeth i ddatblygu cynnyrch newydd a sefydledig, ymgyrchoedd, profiadau a digwyddiadau hirdymor cynaliadwy.

Drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru, rydym ni eisiau gweld digwyddiadau a phrofiadau mwy a gwell o safon rhyngwladol, a phob un yn cael ei gefnogi gan gyfoeth o atyniadau cefnogol ar lawr gwlad. Rydym ni eisiau gweld busnesau'n defnyddio Ffordd Cymru fel sbardun i gydweithio er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn mwynhau profiad llyfn, unedig.

Ein cynlluniau cyllido.
Mae sawl cynllun cyllido ar gael all helpu i ddod â'ch syniadau'n fyw, yn gefnogaeth Cyfalaf a Refeniw. I gael mwy o wybodaeth am ein cynlluniau cyllido, ewch i:
businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid

I drafod syniadau prosiect cyfalaf, cysylltwch â:
tourism.industryadvice@llyw.cymru
0845 010 8020

I drafod syniadau prosiect refeniw, cysylltwch â'ch swyddog rhanbarthol:
De Orllewin Cymru
Philip.Abraham@llyw.cymru
0300 025 4528

De Ddwyrain Cymru
Louisa.Giles@llyw.cymru
0300 061 6012

Canolbarth Cymru
Helen.Jones28@llyw.cymru
0300 025 7424

Gogledd Cymru
AndrewWallace.Forfar@llyw.cymru
0300 062 5837

Rhagor o ffyrdd i gymryd rhan.

Mae Ffordd Cymru'n rhan o strategaeth ehangach, a Croeso Cymru yw un o blith sawl rhanddeiliad yn ei llwyddiant.

Dilynwch @visitwales i weld pa gynnwys rydym ni'n ei bostio.

Dilynwch @VisitWalesBiz i wybod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y diwydiant yng Nghymru.

Tagiwch eich negeseuon cyfryngau cymdeithasol gyda #fforddcymru a #thewalesway.

I ddweud wrth Croeso Cymru am gynnyrch a digwyddiadau newydd yr hoffech i ni wybod amdanynt, e-bostiwch productnews@llyw.cymru

I wybod am y newyddion a'r cyfleon diweddaraf, cofrestrwch i dderbyn e-gylchlythyr Diwydiant Croeso Cymru.
businesswales.gov.wales/tourism/cy

Ewch i walesonview.com i gael gafael ar ddelweddau rhad ac am ddim o ansawdd uchel neu e-bostiwch imagesupport@llyw.cymru

Ymgysylltwch â'ch partneriaeth cyrchfan twristiaeth leol a / neu Gymdeithas Dwristiaeth.

Cefnogwch ddull thematig blynyddol Croeso Cymru 2019 Blwyddyn Darganfod:
businesswales.gov.wales/tourism/cy/2019-blwyddyn-darganfod

fforddcymru.cymru
#fforddcymru

Cyhoeddir *Ffordd Cymru — Llwybr teithio cenedlaethol* gan Croeso Cymru, adran Dwristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru ©2019.
ISBN Print: 978-1-83876-623-8
ISBN Digidol: 978-1-83876-622-1

Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Prif Rodfa, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth: Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru.
Cynhyrchu a golygu cynnwys: Charles Williams, Dylunio: Departures®.
WG38234 © Hawlfraint y Goron 2019, Llywodraeth Cymru OGL